RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher,10 Mawrth 2021 am 4.00pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Adams | Y Cynghorydd S Belzak |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd A Calvert |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd A Chapman |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd J Cullwick | Y Cynghorydd A Davies-Jones |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd J Davies |
| Y Cynghorydd L De Vet | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd M Forey | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd H Fychan | Y Cynghorydd E George |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd E Griffiths |
| Y Cynghorydd M Griffiths | Y Cynghorydd J Harries |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J James |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd K Jones | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Powell |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd J Rosser |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd R Turner | Y Cynghorydd L Walker |
| Y Cynghorydd M Weaver | Y Cynghorydd M Webber |
| Y Cynghorydd E Webster | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**108 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Sera Evans, M Fidler Jones, S Pickering, M Tegg a C Willis.

**109 Croeso a Chyflwyniadau**

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp ar hyn o bryd- Dirprwy Arweinydd y Grŵp Llafur)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper (Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp Ar hyn o bryd – Dirprwy Arweinydd Grŵp y Blaid Geidwadol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak (Aelod Annibynnol)

**110 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis y buddiant personol a ganlyn yn eitem 11 ar yr Agenda - “Cyfeirir at YGG Abercynon yn yr adroddiad, rwy'n Gadeirydd ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol ac mae perthynas agos yn gweithio yn yr Ysgol”

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak y buddiant personol a ganlyn yn Eitem 11 ar yr Agenda - “Mae fy merch yn gweithio yn un o'r ysgolion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad”

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman fod ganddi "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2021-2022 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid", mewn perthynas ag eitemau 9 i 14 ar yr agenda.

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell fod ganddo'r “Hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â'r adran Gwasanaethau i Blant (o fewn Cyfadran Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant), ac eithrio unrhyw faterion penodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei wraig, sy'n cael ei chyflogi gan y Cyngor ac yn Weithiwr Cyswllt o fewn Gwasanaethau i Blant."

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan y buddiant personol a rhagfarnol a ganlyn, ac ni chymerodd ran yn y mater pan bleidleisiwyd ar yr eitem - Eitem 15: Rhybudd o Gynnig - “Mae fy mrawd

yn weithiwr British Gas sydd ar streic”

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries y buddiant personol canlynol - “Mae fy nhad yn gweithio i'r Cyngor”

**Mewn perthynas ag Eitem 14 - Datganiad Polisi Cyflog y Cyngor:**

- Cyhoeddodd Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol ar ran holl Swyddogion y Cyngor sy'n bresennol - mewn perthynas ag Eitem 14 ar yr Agenda - “Nid yw datganiad Polisi Cyflog y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Yn syml mae'n nodi dull y Cyngor o fynd ati polisïau tâl a gymeradwywyd yn flaenorol, felly bydd Swyddogion yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ac yn ystod y drafodaeth ddilynol. "

**111 Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Derbyniodd y Cyngor Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (RECP) a roddodd gyflwyniad Powerpoint a oedd yn mynd i'r afael â'r meysydd a ganlyn: -

- Crynodeb Gweithredol - y pedair blynedd diwethaf a'r hyn sydd i ddod
- CCR - Cysylltiedig, Cystadleuol, Cydnerth - Mae gyda ni ymdeimlad cryf o bwrpas sylfaenol
- Sylfeini Cadarn - Data, Proses, Fframweithiau a Chydweithio
- Strwythurau Llywodraethu a Phartneriaeth
- Llywodraethu a Gwaith Ymgysylltu â Phartneriaid Effeithiol - Rydyn ni wedi trawsnewid arferion gwaith a chyflymder gwneud penderfyniadau
- Cronfa Buddsoddi ac Ymyrraeth
- Prosiectau Cymeradwy hyd yn hyn
- Llinell amser ehangach o ran buddsoddi
- Effaith Ehangach y Buddsoddiad - Prosiect Ffowndri CS a Chlwstwr
- Trosolwg o'r Effaith - Beth mae hyn i gyd yn ei olygu i RhCT?
- Y dyfodol i RhCT…?
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Newydd
- Buddsoddiad Cyhoeddus Rhanbarthol
- Cabinet Rhanbarthol - (Cydbwyllgor Corfforaethol)
- Y Pum Mlynedd Nesaf a Gwaith Pellach

- Pam Gweithredu fel Rhanbarth? Gyda'n gilydd, mae pawb yn gyflawni rhagor (Together Everyone Achieves More)

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (REGP) am eu trosolwg cynhwysfawr.

Amlinellodd yr Arweinydd rai o brosiectau allweddol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd megis y Gronfa Buddsoddi Tai a'r Cynllun Graddedigion, y cytunwyd arno ac a ehangwyd gan y cyllid gan y 10 Awdurdod Lleol, Zip World, Hwb Trafnidiaeth y Porth (gyda buddsoddiad o dros £6 miliwn) ac amlinellodd y buddion o arian cyfatebol gan LIC ar nifer o brosiectau. Cyfeiriodd at fuddsoddi mwy na £200 miliwn o gyllid metro yn RhCT, fel buddiolwr allweddol cyllid craidd Metro trwy welliannau i'r gorsafoedd a'r llinellau trydan i Gaerdydd. Strategaeth gwefru cerbydau trydan ledled y rhanbarth gydag arian pellach gan LIC. Soniodd yr Arweinydd am safleoedd strategol fel yr A465 a datblygiad posibl safleoedd diwydiannol segur sydd i gyd wedi hyrwyddo'r berthynas waith agosach rhwng y 10 Awdurdod Lleol, a chyfeiriodd at y manteision y bydd y Fargen Ddinesig yn eu cynnig i'r Awdurdod Lleol yma.

**Y Cynghorydd P Jarman (Grŵp Plaid Cymru)**

- Yr amcan allweddol yw cynyddu twf GBA o 5% a chreu 25,000 o swyddi ychwanegol, pryd fydd hyn yn debygol o gael ei gyflawni?
- Mae Flexicare yn gyflogwr llwyddiannus a gwerthfawr yn y gymuned ac mae wedi bod o fudd ers blynyddoedd. Byddai o fudd pellach oe byddai modd ehangu ei waith yn y ward
- Y Gronfa Bwlch Hyfywedd Tai - A yw'r safle phurnacite ymhlith y safleoedd a nodwyd?
- Er mwyn sicrhau'r Gronfa Ranbarthol newydd, mae sôn bod rhaid diweddaru'r seilwaith cenedlaethol, a yw hynny'n cyfeirio at Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru?
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol - Roedd y Cynghorydd Jarman yn gobeithio y byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i egluro beth fydd hynny'n ei olygu

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod targedau'r Fargen y soniwyd amdanyn nhw yn ymestyn dros gyfnod o 20 mlynedd o fis Mawrth 2021. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cynnydd bach mewn cynhyrchiant, ond mae'n waith hirdirymor. O ran Flexicare, dywedodd y Cyfarwyddwr fod grŵp o gwmnïau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar ddyfeisiau meddygol a chwmnïau diagnosteg sy'n canolbwyntio ar RhCT yn cael eu symud ymlaen. Nid oedd y Cyfarwyddwr yn gallu rhoi sylwadau ar enwau'r safleoedd oherwydd sensitifrwydd masnachol ond byddai'n darparu diweddariad pan oedd hynny'n bosibl. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod llawer o fuddsoddiad yn dod gan Lywodraeth y DU, er bod angen manteisio ar unrhyw gyllid sydd ar gael i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd p'un ai gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. O ran Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, sy'n fater lleol ac yn benderfyniad lleol, nododd y Cyfarwyddwr ei bod eisoes wedi rhoi cyngor am rai o'r buddion pe byddent yn cael eu mabwysiadu.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell, (Grŵp Annibynnol RhCT)**

Cododd y Cynghorydd Powell bryder bod rhai o'r ardaloedd lleol yn RhCT a'u priod faterion lleol wedi cael eu hanwybyddu megis ardaloedd Ynys-y-bwl a Glyn-coch, a fyddai wedi bod yn addas ar gyfer atalfeydd rheilffyrdd, a gofynnoff a fydd rhai ardaloedd eraill o fewn RhCT yn cael eu hanghofio gan y Brifddinas.?

Cerbydau Trydan - Cododd y Cynghorydd Powell ymholiad ynghylch ble fyddai'r pwyntiau gwefru, yn enwedig gyda thai teras sy'n amlwg mewn sawl ardal yn RhCT, a chan nad yw llawer o drigolion yn gallu parcio'n uniongyrchol y tu allan i'w cartrefi eu hunain.

Eiddo Gwag Tymor Hir - Mae gan RCT dros 3,000 o eiddo gwag tymor hir gyda dros 25,000 ledled Cymru gyfan. A fyddai'n well buddsoddi yn yr eiddo gwag, fel bod modd eu diweddaru i'r safonau cyfredol mewn ffordd fwy effeithlon a llai costus?

**Y Cynghorydd J James (Grŵp Ceidwadol)**

Dywedodd y Cynghorydd James nad yw'r GVA wedi codi ers nifer o flynyddoedd felly gofynnodd a yw 5% yn nod realistig?

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak (Aelod Annibynnol)**

Gofynnodd y Cynghorydd Belzak pa mor realistig yw siarad am dwf economaidd gyda dirywiad cyfraddau twf yn fyd-eang ers 2008, a achoswyd oherwydd dirywiad mewn adnoddau ynni?

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd at Gynllun Eiddo Gwag RhCT sydd wedi'i ehangu ar draws ardaloedd Tasglu'r Cymoedd gyda rhai cymhellion, pwysleisiodd bwysigrwydd datblygu'r diwydiant o amgylch Zipworld fel y diwydiannau lletygarwch, gwestai ac arlwyo i wneud yn sicr ei fod yn cael effaith. Rhoddodd wybod am bwysigrwydd y Prosiectau Meistr, cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau a Rennir wrth fynd i'r afael â'r prinder sgiliau a materion cadwyn gyflenwi a'r angen i ymateb yn gyflym i'r newidiadau yn y farchnad gyflogadwyedd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr nad ydy'r cynllun wedi ymuno â Phorth y Gorllewin ond eu bod wedi ymgysylltu fel arsylwyr, serch hynny nid oes unrhyw fuddsoddiad wedi'i ymrwymo. O ran twf GVA, mae gan y rhanbarth un o'r cyfraddau cynhyrchiant twf isaf yn y DU, ac mae angen ei gynyddu, ond pwysleisiodd bwysigrwydd gwneud y peth iawn er budd y rhanbarth cyfan.

Codwyd nifer o ymholiadau eraill ac ymatebwyd iddynt - megis ymestyn y rheilffordd i Dreherbert, y ddadl ynghylch cerbydau trydan dros gerbydau hydrogen, rhannu blaenoriaethau - pa ganran a fuddsoddwyd yng Nghaerdydd o'i chymharu â RhCT a'r Gronfa Ddiweddaru (Levelling Up).

**112 Cyhoeddiadau**

1. Talodd y Llywydd deyrnged i gyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Mike Diamond a oedd wedi ymddiswyddo yn ddiweddar fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol ar gyfer RhCT. Fe'i disgrifiodd fel gŵr bonheddig, gwir weithiwr proffesiynol a hyrwyddwr teilwng yn ei gymuned. Nododd y Llywydd ddiolchgarwch y cyn Gynghorydd Diamond i'r holl Aelodau a staff am yr help a gafodd tra roedd yn y swydd.

2. Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman yn dymuno adleisio'r deyrnged i gyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Mike Diamond.

   Dywedodd y Cynghorydd Jarman ei bod yn braf bod y Cyngor eisoes wedi gwneud cyhoeddiad bod Alfie Ford, 12 oed, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Aberpennar, wedi ennill £1,000 i elusen o'i ddewis, Ysbyty Plant Noah's Ark. Roedd ei brosiect 'First Give' yn rhoi bagiau bach o hapusrwydd i weithwyr hanfodol ar y rheng flaen, i ddiolch am bopeth maen nhw wedi'i wneud trwy gydol y pandemig. Talodd y Cynghorydd Jarman deyrnged hefyd i Trudy Fisher, gweithiwr hanfodol sy'n Gydlynydd Prosiect Cynhalwyr Ifainc sy'n darparu cefnogaeth i blant rhwng 5-18 oed ac sydd wedi cefnogi anghenion y cynhalwyr ifainc hyn a'u teuluoedd gyda bwyd a grantiau trydan, a sicrhau bod lleisiau'r plant hyn yn cael eu clywed. Mae hi wedi cael ei henwebu am Wobr Dewi Sant gan Brif Weinidog Cymru (gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 24 Mawrth 2021). Gofynnodd y Cynghorydd Jarman am anfon llythyr gan y Maer at y ddau i gydnabod eu cyflawniadau a dymuno'n dda iddyn nhw ar gyfer y dyfodol.

## 113 Rheol Dull Gweithredu'r Cyngor 15.1

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd, mai nifer y pleidiau gwleidyddol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod oedd: -
Grŵp Llafur - 43
Grŵp Plaid Cymru - 15
Grŵp Annibynnol RhCT - 6
Grŵp y Ceidwadwyr - 2
Aelod Annibynnol - 1

## 114 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cofnodion cyfarfodydd rhithwir y Cyngor o 20 Ionawr a 10 Chwefror 2021 fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfodydd, ar yr amod eu bod yn nodi bod Grŵp y Ceidwadwyr wedi ymatal rhag pleidleisio ar y Rhybudd o Gynnig fel y nodir yng Nghofnodion yr 20 Ionawr 2021 (Cofnod 94).

## 115 Archwilio Cymru - Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyflwynodd Mr C Davies, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru, Grynodeb Archwilio blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2020 gan nodi'r gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019. Dywedwyd wrth y Cyngor fod y crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac eleni wedi'i gyflwyno mewn fformat mwy hygyrch a chryno. Ychwanegodd mai hon

fyddai'r flwyddyn olaf iddo ef a'i gydweithiwr Ms J Davies gyflwyno'r crynodeb ar gyfer RhCT gan fod y ddau ohonyn nhw'n symud ymlaen i brosiectau eraill.

Yn dilyn y cyflwyniad, diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r ddau Swyddog am yr adroddiad a nododd fod y berthynas onest ac agored rhwng y Cyngor ac Archwilio Cymru wedi bod yn adeiladol ac yn ddefnyddiol i'r Cyngor o ran cydnabod a blaenoriaethu'r meysydd hynny lle bu angen gwelliannau.

Yn dilyn trafodaeth a sylwadau gan yr Arweinwyr Grŵp **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad.

**116 Datganiadau**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas â goleuo adeiladau allweddol amlwg ledled RhCT ar 23 Mawrth, yn arwydd o barch i gymunedau RhCT ac er mwyn diolch i'r GIG a'r holl staff wrth nodi dyddiad blwyddyn swyddogol ers dechrau'r Cyfyngiadau Symud.

**117 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan):**

“Oes modd i'r Arweinydd roi diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer yr Orsaf Drenau newydd yn Ystâd Treforest?”

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod RhCT yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru (TFW) a Llywodraeth Cymru (LlC) ar ddatblygu’r orsaf newydd sy’n faes blaenoriaeth ar Linellau’r Cymoedd ac y bydd yn cael ei lleoli ar ochr arall yr afon i ble mae Swyddfa’r Adran Gwaith a Phensiynau, gyda phont droed newydd, sy'n cydymffurfio ag amodau teithio llesol, yn mynd o Willow Ford Road ac yn cysylltu â'r Ystad. Mae Trafnidiaeth Cymru yn symud ymlaen gyda dyluniad cam C y datblygiad ac mae Cyngor RhCT yn cefnogi'r cynulliad tir sy'n ofynnol. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau ar ariannu rhaglenni yn parhau ac o'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol nesaf mae cynnydd gyda chyllid rhanbarthol yn mynd rhagddo, a bydd y cynllun yn cael ei gymryd ymlaen dros y ddwy flynedd nesaf.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol**

**Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan):**

“Oes modd i'r Cynghorydd Morgan yn nodi beth yw polisi neu agwedd y Cyngor tuag at leihau allyriadau cerbydau i wella ansawdd aer mewn ardaloedd preswyl

yng ngoleuni RhCT yn sgil dyfarniad diweddar Crwneriaid Southwark, dolen isod (Saesneg yn unig).

"On 16 December, Southwark Coroner's Court in London found that air pollution "made a material contribution" to the death of nine-year-old Ella Adoo-Kissi-Debrah."
https://www.bbc.com/news/science-environment-55352247

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Dywedodd yr Arweinydd fod Ella Adoo-Kissi-Debrah yn byw ger Ffordd Gylchol brysur yn Lewisham ac yn dioddef gyda math prin o asthma acíwt a oedd yn ei gwneud hi'n agored i niwed gan nwyon gwenwynig a gronynnau. Cadarnhaodd y Crwner fod ei marwolaeth oherwydd cyflyrau genetig ac yn rhannol oherwydd yr amgylchedd. Ar ran y Cyngor, estynnodd yr Arweinydd ei gydymdeimlad â'r teulu a thalu teyrnged i'r ffordd ddewr yr oedden nhw wedi tynnu sylw at y materion.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn asesu ansawdd aer yn RhCT yn rheolaidd ac wedi gwneud hynny ers diwedd y 1990au i gael gwell dealltwriaeth o'r materion cymhleth sy'n ymwneud ag ansawdd aer lleol ac i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ac mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn y monitro tymor hir rhai llygryddion aer fel Nitrogen Deuocsid. Mae monitro'n dangos bod lefelau ansawdd aer yn RhCT wedi gwella'n sylweddol ers diwedd y 1990au ac mae'r lefelau yn is na'r amcanion ansawdd aer a osodwyd yn genedlaethol. Mae rhai lleoliadau yn y fwrdeistref sirol yn fwy heriol o ran ansawdd aer gwael a Nitrogen Deuocsid cysylltiedig â thraffig, ac mae'r ardaloedd hyn wedi'u nodi fel ardaloedd rheoli ansawdd aer. Trwy fabwysiadu cynlluniau gweithredu ansawdd aer pwrpasol, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o gamau cost-effeithiol yn ymwneud â rheoli traffig.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod opsiynau traffig cynaliadwy yn cael eu hannog megis y cynlluniau Metro, Parcio a Theithio yn ogystal â mentrau cymdogaeth lleol fel llwybrau cerddwyr a llwybrau cerdded i'r ysgol. Mae hefyd ymgysylltiad â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i ystyried y rhwystrau i ddefnyddio opsiynau trafnidiaeth lleol. Mae'r cydweithredu â phartneriaid fel LIC yn hollbwysig wrth symud ymlaen, cydnabu'r Arweinydd rai o'r meysydd problemus fel yr A470 a chyfyngiadau pellach sydd wedi'u cyflwyno. Mae'r pandemig wedi tarfu ar rywfaint o fonitro oherwydd y gostyngiad yn y defnydd o draffig, er ei fod yn gadarnhaol i'r amgylchedd, bydd y tueddiadau tymor hwy yn parhau i gael eu monitro.

Mae nifer o bapurau wedi'u cyhoeddi megis Mesur Aer Glân Cymru (papur gwyn) sy'n edrych ar asesiadau ansawdd aer lleol a chyflawniad opsiynau. Mae Hybiau Aer Glân yn edrych ar ymgysylltu â'r gymuned gan edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â'r broblem hirdymor hon. "

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Powell:**

“Pam fod yr Arweinydd yn bwriadu dargyfeirio traffig y briffordd trwy ardal breswyl i gynyddu llygredd aer a symudiadau cerbydau mewn ardal adeiledig?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Cadarnhaodd yr Arweinydd fod terfyn traffig (pwysau) ar y Bont Wen ers cryn amser cyn ei chau ac nad oes arwydd dargyfeirio ar waith i ddargyfeirio traffig i unrhyw gyfeiriad. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod gwaith wedi ei wneud wrth y goleuadau traffig ger y gyffordd gan yr Orsaf Heddlu a nododd fod capasiti lôn ychwanegol, graddoli a mesurau gwella ffyrdd ar waith i leddfu rhai o'r pwysau traffig. Nid yw’r Cyngor yn dargyfeirio traffig drwy’r ystâd honno ac mae’n bont gyhoeddus, mae traffig yn gallu mynd ar draws y bont i’r ddau gyfeiriad ac mae’r Cyngor yn gobeithio y bydd trigolion lleol yn cael eu hannog i beidio â defnyddio’r llwybr fel llwybr osgoi. ”

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

“A all Aelod y Cabinet amlinellu pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru a’r Cyngor yn ei darparu o ran Prydau Ysgol Am Ddim?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

Dywedodd y Cynghorydd Rosser fod cefnogaeth yn parhau i gael ei darparu i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mae pryd poeth maethlon yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol o dan y trefniant presennol. Mae'r disgyblion hynny nad ydyn nhw'n mynychu'r ysgol oherwydd eu bod nhw'n gwarchod neu'n hunan-ynysu, yn ogystal â'r dysgwyr o bell, yn cael cefnogaeth gyda thaliad Bacs o £3.90 y dydd.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Rosser fod LlC, fel rhan o'r cyllid o £11 miliwn y llynedd, wedi ymrwymo i gefnogi disgyblion PYDd trwy gydol gwyliau'r ysgol a bydd rhieni cymwys yn derbyn taliad o £39.00 y plentyn am gyfnod Gwyliau'r Pasg. Hysbyswyd yr aelodau bod y Cyngor, ers dechrau'r pandemig a diwedd Ionawr 2021, wedi talu cyfanswm o £5.5 miliwn mewn taliadau cysylltiedig â phrydau ysgol am ddim a rhagwelir y bydd y flwyddyn lawn yn £6.3 miliwn.

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd Williams:**

“Oes modd i'r Cabinet ddarparu gwybodaeth am y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) a pha gymorth sydd ar gael o dan y cynllun hwnnw?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

“Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) yn darparu £125 ar gyfer gwisg ysgol, offer, citiau chwaraeon a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi estyn cymhwysedd i flynyddoedd ysgol ychwanegol ac mae'r meini prawf wedi'u hymestyn i gwmpasu gliniaduron a/neu lechi. Gall disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYD wneud un hawliad y flwyddyn a gwneud cais os ydyn nhw ym mlynyddoedd ysgol 1,3, 5 neu os ydyn nhw'n 7-11 oed, neu os ydyn nhw mewn Ysgol Arbennig neu yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion ac yn 4,5,7,9 neu 11-15 oed. Mae cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael ym mhob blwyddyn ysgol. "

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Oes modd i'r Arweinydd ddarparu diweddariad ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr amserlen ar gyfer deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd nawr bod y gwaith wedi dechrau?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y gwaith ar ddeuoli Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn dod yn ei flaen yn dda ac wedi dechrau cyn y Nadolig. Nid yw'n ymwneud y â chysylltedd o Ganolbarth Lloegr â'r Cymoedd yn unig, ond hefyd â phryderon diogelwch mewn perthynas ag adrannau 5 a 6 mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau a marwolaethau ar y ffordd. Disgwylir i'r gwaith presennol bara tair blynedd i'w gwblhau a fydd yn cynnwys adeiladu cyffordd newydd yn Cross Fychan a ffordd gyswllt newydd i'r A459 i sicrhau bod y cysylltiad â Chwm Cynon yn cael ei wella yn lle cael ei dorri. "

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Boggis:**

“Rwy’n nodi budd y cysylltedd ond faint fydd y prosiect yn helpu twristiaeth yn ardal ogleddol Cwm Cynon?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth fel Zipworld, Penderyn a Pharc Gwledig Aberdâr, sydd wedi derbyn cyllid sylweddol trwy Dasglu’r Cymoedd. Bydd gwella'r cysylltiadau teithio, os gellir bwrw ymlaen â chynlluniau gyda'r metro, a'r rheilffyrdd, yn gwella'r cyfleoedd ar ben y cwm ac yn anng ymwelwyr i aros yn hirach. Y gobaith yw y bydd yr atyniadau i dwristiaid yn denu cwmnïau gwestai i’r ardal fel y gall ymwelwyr aros am ychydig ddyddiau a gwario arian yn lleol i greu swyddi a gwella’r economi leol. ”

**Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan):**

'A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar ganfyddiadau diweddar yr adroddiad ar wasanaethau mamolaeth BIP Cwm Taf Morgannwg? ”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Cyhoeddwyd yr adroddiad annibynnol cyntaf ar 25 Ionawr 2021 a chadarnhaodd yr Arweinydd fod ganddo nifer o gyfarfodydd gyda Chadeirydd y panel Goruchwylio i drafod yr argymhellion. Dywedodd yr Arweinydd fod y rhaglen waith yn cynnwys 160 achos o feichiogrwydd rhwng 1 Ionawr 2016 a 30 Medi 2018 ac mae wedi'i gategoreiddio'n dri maes, 'Morbidrwydd a Marwolaethau Mamau', 'Babanod Marw-anedig' a 'Babanod a Fu Farw neu a oedd angen Gofal Arbenigol yn Syth Ar Ôl Geni'.

Mae'r adroddiad cyntaf yn canolbwyntio ar famau a oedd angen gofal brys ac yr oedd angen eu derbyn i ofal dwys gydag 16 achos yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a 12 achos yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu'r meysydd pryder a nodwyd yn flaenorol yn yr adolygiad a godwyd yn flaenorol gan Goleg Brenhinol y Bydwragedd a Choleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynaecolegwyr. Esboniodd yr Arweinydd y byddai gwahanol ganlyniadau wedi cael eu cyflawni mewn 27 allan o'r 28 achos pe bai rheolwyr a staff wedi cymryd gwahanol gamau.

Mae nifer o themâu wedi cael eu datblygu ers hynny megis methu â gwrando ar

fenywod, methu â nodi a chynyddu risg, arweinyddiaeth glinigol annigonol a thriniaeth amhriodol gan arwain at ganlyniadau niweidiol y pwysleisiodd yr Arweinydd y bydd angen iddynt barhau i symud ymlaen am gryn amser.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod nifer sylweddol o argymhellion wedi eu rhoi ar waith yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ond roedd yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd. Cydnabu'r Arweinydd bwysigrwydd atebolrwydd a phwysigrwydd nodi beth arweiniodd at rai o'r canlyniadau. ”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Fox:**

“Mae'r Arweinydd wedi nodi o'r blaen nad oedd ganddo unrhyw hyder yn y Bwrdd Iechyd Lleol, a all gadarnhau a yw hynny'n dal i fod yn wir?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

“Esboniodd yr Arweinydd fod ganddo ddiffyg hyder mewn rhai unigolion, uwch reolwyr, ond ers hynny mae'r uwch dîm rheoli wedi newid ac mae pedwar ohonyn nhw bellach wedi gadael y Bwrdd Iechyd am wahanol resymau, gan gynnwys y Prif Weithredwr. Mae'r berthynas waith agos rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, yn ystod y pandemig, wedi cryfhau'r dulliau cyffredinol ac wedi bod yn adeiladol. Dywedodd yr Arweinydd pe bai'n gofyn yr un cwestiwn heddiw y byddai'n ateb bod ganddo hyder yn y Bwrdd Iechyd er nad yw hynny'n wir am bob maes. Ar ryw adeg yn y dyfodol yn y cyflwyniad nesaf i'r Cyngor, roedd yn gobeithio y gellid gwrthdroi'r farn honno ymhlith Aelodau'r Cyngor hefyd. Dywedodd fod ganddo lawer mwy o hyder yn yr uwch dîm arwain sydd yn eu swydd.

**118 Rhaglen Waith y Cyngor 2020/2021**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor a chyhoeddodd nad oedd unrhyw newidiadau nac ychwanegiadau i raglen waith y Cyngor 2020/21 fel y'u cyhoeddwyd.

**119 Diffyg presenoldeb gan Gynghorydd am Chwe Mis**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ei adroddiad mewn perthynas â Chynghorydd yn cael ei ddiswyddo o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd. Fel rhan o'i gyflwyniad amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y darpariaethau Adran 85 ac 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (“LGA 1972”), sy'n delio â chynghorydd yn gadael swydd oherwydd methu â mynychu cyfarfodydd; a gwybodaeth mewn perthynas â diffyg presenoldeb aelod o GBS Rhondda Cynon Taf mewn cyfarfodydd dros gyfnod o fwy na chwe mis, heb i'r Cyngor gymeradwyo caniatâd i fod yn absennol.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cyngor, ymhellach i gyflwyno Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ar 22 Ebrill 2020, y bu diwygiad pellach i adran 85 o LGA 1972 a nododd y dylai'r y cyfnod o 22 Ebrill 2020 i'r diwrnod cyntaf y cynhelir cyfarfod (ac y gallai Aelod ei fynychu) gael ei ddiystyru at ddibenion cofnodi presenoldeb Aelod mewn cyfarfodydd a gweithredu'r rheol chwe mis.

Ar adeg cyflwyno'r rheoliadau, roedd y Cyngor ailgyflwyno swyddogaethau

pwyllgor yn gynyddrannol, er mwyn caniatáu i Aelodau adeiladu profiad yn gweithredu mewn amgylchedd rhithwir ac i bawb dan sylw ennill profiad o ddefnyddio platfform Zoom. Roedd y dull hwn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r holl aelodau gymryd rhan mewn hyfforddiant a chyfarfodydd rhithwir.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, er gwaethaf ymdrechion rhesymol i gysylltu â'r Cynghorydd Gavin Williams (ar gyfer ward Etholiadol Penrhiwceiber), nad oedd yr Aelod wedi mynychu cyfarfod am gyfnod o chwe mis (y cyfarfod diwethaf a fynychwyd oedd Cyngor ar 4 Mawrth 2020) heb reswm a gymeradwywyd gan y Cyngor dros ei ddiffyg presenoldeb o fewn y cyfnod hwnnw.

Cafwyd trafodaeth a chyfle i'r Arweinwyr Grŵp unigol i ofyn cwestiynau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â'r mater.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i nifer o ymholiadau yn ymwneud â'r 'ymdrechion rhesymol' i gyfathrebu â'r Cynghorydd Williams ers ei bresenoldeb diwethaf ar 4 Mawrth 2020. Dywedwyd wrth y Cyngor fod pob gwŷs pwyllgor electronig a chopïau caled o agendâu wedi'u cylchredeg yn rheolaidd i'r Aelodau yn ôl yr angen a'r galw. Ychwanegodd fod cefnogaeth i gymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd rhithwir yn cael ei gynnig mewn sawl ffordd, trwy sesiynau drws agored, a oedd ar agor i bob aelod yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst 2020, sesiynau llai i gefnogi anghenion unigol aelodau, y cafodd pob aelod wahoddiad i'w mynychu, a sesiynau pwrpasol ar gyfer aelodau a oedd angen cefnogaeth bellach gan y Gwasanaethau Democrataidd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymhellach fod gohebiaeth gyda'r Cynghorydd Williams yn ystod yr amser hwn trwy lythyr, e-bost a ffôn wedi'i gynnal a'i gofnodi.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd y Cynghorydd Williams wedi mynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall yn ystod y cyfnod hwn fel y Cabinet, y Pwyllgor Trwyddedu, y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu nac fel Llywodraethwr AALl, a fyddai wedi golygu ei fod wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau. Cadarnhaodd ymhellach, fel Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, ei fod yn fodlon bod yr holl ymdrechion rhesymol wedi'u cyflawni a bod cefnogaeth ddigonol wedi'i chynnig, a oedd wedi'i adlewyrchu yn ei adroddiad 'Digonolrwydd Adnoddau' i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn y cyfarfod cofnodwyd y sylwadau cadarnhaol a gafwyd mewn perthynas â'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Democrataidd i Aelodau ac yn benodol y gefnogaeth mewn perthynas â chyfarfodydd rhithwir.

Dywed yr adroddiad yn 4.8 'the six-month rule was therefore recorded from July 2020 when Full Council meetings resumed', a nodwyd pryder ynghylch 2 aelod arall nad oeddent wedi mynychu cyfarfodydd o fewn y cyfnod o chwe mis hyd at y 31 Rhagfyr 2020.

Yn dilyn trafodaeth bellach, ar yr adeg hon yn yr achos ac oherwydd sensitifrwydd y mater, cynigiwyd bod yr Aelodau'n ystyried y busnes sy'n weddill heb gamera.

PENDERFYNWYD -

**"bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 23 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf, sef gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithiwr penodol, cyn-weithiwr neu ymgeisydd i ddod yn ddeiliad swydd o dan yr awdurdod a gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw ymgynghoriadau ag unrhyw fater cysylltiadau llafur sy'n codi rhwng yr Awdurdod neu Weinidog y Goron a gweithwyr, neu ddeiliad swydd, o dan yr Awdurdod."**

Yn ei absenoldeb, cafodd datganiad gan y Cynghorydd G Williams ei ddarllen ar lafar i'r Cyngor ar ffurf llythyr gan Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT.

Yn ystod y drafodaeth **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor, er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

Trafododd yr Aelodau y mater ymhellach a chynigiwyd y cynnig canlynol (a ddiddymwyd) gan Gynghorydd Bwrdeistref y Sir P. Jarman:

“Cyfeirio’r cynnig hwn i’r Swyddog Monitro at y diben o nodi Aelodau eraill a fethodd y prawf 6 mis ac adroddir arno yn ôl i’r cyfarfod nesaf.”

(**Nodwch**: Roedd Grŵp Plaid Cymru, Grŵp Annibynnol RhCT, y Grŵp Ceidwadol a’r Cynghorydd Belzak (Aelod Annibynnol) yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y cynnig a ddiddymwyd).

**PENDERFYNWYD** agor y cyfarfod i'r cyhoedd ar gyfer trafod y materion sy'n weddill.

Ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod y manylion a ddarperir yn yr adroddiad mewn perthynas â diffyg presenoldeb y Cynghorydd G. Williams mewn cyfarfodydd am gyfnod o fwy na chwe mis heb i'r Cyngor gymeradwyo caniatâd i fod yn absennol; a

2. Cytuno y dylid datgan, yn unol ag Adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod swydd Cynghorydd G. Williams fel Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (ar gyfer Ward Etholiadol Penrhiwceiber) yn wag.

(**Nodwch:** Roedd Grŵp Plaid Cymru, Grŵp Annibynnol RCT, y Grŵp Ceidwadol a’r Cynghorydd Belzak (Aelod Annibynnol) yn dymuno iddo gael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig)

**120 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol ei adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2021/22 ac yn nodi argymhellion y Cabinet mewn perthynas â Chyllideb Refeniw'r Cyngor a lefel Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol am “benawdau” Setliad Terfynol 2021/22 fel y nodir yn adran 4 yr adroddiad ac yn y

setliad ar gyfer Rhondda Cynon Taf, sy'n gyfystyr â chynnydd mewn cyllid o **3.8%** ar gyfer y flwyddyn nesaf, sydd yr un fath â chynnydd cyfartalog Cymru gyfan. Roedd adnoddau ychwanegol ynghlwm â'r costau terfynol yn cynnwys £206 miliwn i dalu costau ategol a cholledion incwm oherwydd y pandemig ac mae'n cynnwys 6 mis cyntaf y flwyddyn newydd.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod gofyniad cyllideb wedi'i ddiweddaru y Cyngor ar gyfer y Flyddyn nesaf wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ar 20 Ionawr 2021, ac roedd bwlch cyllidebol o £4.057 miliwn yn weddill. Mae'r Cabinet wedi ystyried ei opsiynau o ran strategaeth gyllidebol 2021/22 yn erbyn y manylion hyn, a nodir ym mharagraff 7 yr adroddiad.

Soniodd y Cyfarwyddwr am nifer o feysydd a nodwyd ar gyfer adnoddau a buddsoddiad ychwanegol megis ymestyn y Cynllun Rhyddhad Lleol Domestig, adnoddau ychwanegol i hyrwyddo gweithgarwch lleihau Carbon a Newid Hinsawdd y Cyngor, recriwtio mwy o raddedigion ac ehangu rhaglenni lles a rhewi nifer o ffioedd a thaliadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

I gloi, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at y crynodeb o gynigion y strategaeth gyllideb a nodir yn nhabl 1 yn adran 10 yr adroddiad gyda'r bwlch cyllidebol sy'n weddill o £711,000 y gellir ei gydbwyso â dyraniad o'r cyllid pontio a ailgyflenwyd eisoes, gan arwain at gyllideb gytbwys arfaethedig o £527.903 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cafwyd trafodaeth wedyn gan yr Arweinwyr Grŵp a oedd yn cydnabod lefelau ymgysylltu ar gyfer y broses ymgynghori mewn perthynas â chyllideb y Cyngor a nifer o ymholiadau fel y grant yn ymwneud â chynhyrchion misglwyf i ysgolion a chostau cysylltiedig â Covid. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau ariannu holl gostau a cholledion incwm a fydd ar ddiwedd Chwarter 3 yn codi i tua £46 miliwn ar gyfer y flwyddyn lawn.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James Aelod Senedd Cymru) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol terfynol 2021/2022, yn Atodiad 1 i'r adroddiad;

2. Nodi'r goblygiadau i'r Cyngor a'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 yr adroddiad;

3. Cytuno ar gynnydd o 2.65% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2021/22;

4. Cytuno ar y cynnydd yng Nghyllideb Grynswth yr Ysgolion fel yn adran 8 yr adroddiad;

5. Cytuno ar gynigion strategaeth y gyllideb fel ym mharagraffau 10.3 (a) i 10.3 (i) yr adroddiad;

6. Cytuno i ddefnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £0.711 miliwn ar gyfer 2021/22;

7. Cymeradwyo Tablau 3 a 4 yn Adran 13 yr adroddiad yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni gofynion ariannu corfforaethol y Cyngor;

8. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2021/22 sef £527.90 miliwn, er mwyn cymeradwyo'r penderfyniadau statudol angenrheidiol o ran pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2020.

(**Nodwch:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater).

**121 Penderfyniad Treth y Cyngor 2021/22**

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol fanylion cyfrifiad Treth Cyngor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2022, cyn pasio'r penderfyniadau statudol angenrheidiol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru;

2. Nodi lefel Praesept y Cyngor Cymuned sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad;

3. Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2022, fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad;

4. Nodi sylwadau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig a nodwyd ym mharagraff 9.2 yr adroddiad.

**122 Rhaglen Gyfalaf 2021/22 - 2023/24**

Mae'r adroddiad yma'n egluro Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 i 2023/234, yn dilyn cadarnhau'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2021/22.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi manylion setliad terfynol llywodraeth leol am 2021/22 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;

2. Cytuno i ryddhau balans cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi fel sydd ym mharagraff 5.3;

3. Cytuno i ailddyrannu adnoddau fel y manylir ym mharagraffau 5.5 - 5.8;

4. Cytuno i ddyrannu'r cyllid sydd wedi'i ryddhau o Gronfeydd Wrth-gefn sydd wedi'u Clustnodi a chyllid cyfalaf craidd sy'n bodoli eisoes i'r blaenoriaethau buddsoddi fel ym mharagraff 6.2;

5. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd ‘graidd’ arfaethedig, yn Atodiad 2;

6. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3

(a) i (d), sy'n cynnwys y cyllid nad yw'n gyllid craidd:

- Benthyca darbodus i gefnogi Cynlluniau Ysgolion yr 21ain ganrif a chynlluniau gwella'r priffyrdd;
- Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
- Cyfraniadau trydydd parti;
- Adnoddau ychwanegol y Cyngor a gafodd eu dyrannu'n flaenorol i gefnogi cynlluniau sy'n bodoli eisoes a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- Y blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 6.2, sydd wedi'u hariannu gan arian cyfalaf un tro oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3.2, rhyddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi yn unol â pharagraff 5.3, a Benthyca Darbodus yn unol â pharagraff 5.5 - 5.8.

(**Nodwch:** Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater).

## 123 Strategaeth Reoli'r Trysorlys

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad gyda'r bwriad o nodi: -

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22;
- Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2021/22;
- Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2020/21 (gwirioneddol hyd yma) a 2021/22, 2022/23 and 2023/24; a
- Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion y Trysorlys, a'r Datganiad Polisi Darpa

## 124 Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gwaith rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â throsolwg o'r risg gysylltiedig, sut y caiff hynny ei reoli a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r adroddiad Strategaeth Cyfalaf sy'n ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus.

(**Nodwch**: Ymataliodd y Grŵp Ceidwadol rhag pleidleisio ar y mater)

## 125 Datganiad y Cyngor ar y Polisi Cyflogau 2021/22

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wybodaeth i'r Aelodau am Ddatganiad Polisi Cyflogau 2021/22 y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth a sicrwydd bod y Cap Gadael wedi'i ddiddymu,

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog fel y dangosir yn Atodiad A yr adroddiad.

**126 Rhybuddion o Gynigion**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: L. M. Adams, S. Bradwick, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen Jones, S Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

"Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi bod yn eithriadol o anodd i fusnesau, gyda llawer o bobl ledled y wlad, y DU a thu hwnt yn gorfod cau wrth i ni geisio rheoli lledaeniad y feirws a chadw pobl yn ddiogel. Yn naturiol, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y rhai sy'n gweithio yn y sectorau yr effeithir arnynt, gyda miliynau ledled y DU yn cael eu rhoi ar gynllun ffyrlo, a llawer o rai eraill yn colli eu swyddi. Yng ngoleuni'r sefyllfa ddigynsail hon, nid nawr yw'r amser i anghydfodau o ran gordalu ac amodau.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r anghydfod parhaus rhwng British Gas (a'i riant-gwmni Centrica) a'i weithwyr gweithgar - sydd wedi cael eu bygwth â cholli swyddi os nad ydyn nhw'n derbyn cyflog is ac amodau gwaeth.

Oherwydd y streic a gefnogwyd gan fwyafrif helaeth y staff a'r peirianwyr, mae mwy na 100,000 o gwsmeriaid wedi'u gadael yn aros am wasanaeth, a bydd y nifer yma'n cynyddu dros yr wythnosau nesaf trwy gydol y gaeaf.

Mae'r anghydfod yma yn aflonyddwch diangen, gyda Centrica yn nodi elw sylweddol o £901 miliwn yn 2019 (cyn eitemau eithriedig a threth), tra bod proffidioldeb y busnes gwresogi cartrefi yn y DU wedi codi 27% yn ystod 6 mis cyntaf 2020, gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth yn gweithio gartref oherwydd y pandemig.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Y gwaith gwerthfawr y mae staff a pheirianwyr yn ei wneud i gadw cartrefi Prydain yn gynnes - gyda gweithwyr yn aml yn gorfod ymweld â chartrefi pobl yn ystod y pandemig i sicrhau bod gyda nhw fodd o wresogi'u cartref a'u bod nhw'n byw'n gyfforddus.

- Y gweithredoedd a'r bygythiadau anghyfiawn a wnaed gan Centrica i weithwyr British Gas - yn enwedig o ystyried sefyllfa ariannol ddiweddar y cwmni.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn **penderfynu:**

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Centrica i amlinellu cefnogaeth y Cyngor yma i weithwyr British Gas lleol.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodwch:** Y Grŵp Ceidwadol ymatal rhag pleidleisio ar y mater).

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**